COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD MERCHER, 22 MAI 2024 09:30

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

R Williams
J Llewellyn-Hopkins
J E Pratt
A R Berrow
S J Bletsoe
H Griffiths
P W Jenkins

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn, H T Bennett a/ac S Easterbrook

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Nick Dennison | Cyfreithiwr |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Yvonne Witchell | Rheolydd Tîm Trwyddedu |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |

Datganiadau o Ddiddordeb

## 2. Datganiadau o fuddiant

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant yn y cyfarfod |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 22 Mai 2024 |

## 3. Cymeradwyaeth Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu â'r dyddiad 27/02/2024 fel cofnod gwir a manwl gywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 22 Mai 2024 |

## 4. Penodi Is-bwyllgor(au) Trwyddedu a Dirprwyo i Swyddogion

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Cyflwynodd y Rheolwr Tîm – Trwyddedu adroddiad, a'i ddiben oedd cynnig aelodaeth o Is-bwyllgorau y Pwyllgor Trwyddedu yn dilyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 2024.<br><br>Y rheswm dros yr uchod, oedd o ganlyniad i'r ffaith bod Aelod newydd bellach ar y Pwyllgor h.y. y Cynghorydd Colin Davies, a ddaeth yn lle'r Cynghorydd Rob Smith.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi cytuno ar:<br><br>(1) Gymeradwyo ffurfio'r ddau Is-bwyllgor yn eistedd ar sail rota, gyda'r ddau'n cynnwys saith Aelod o'r Pwyllgor Trwyddedu ac yn cael eu cadeirio gan Gadeirydd (Is-bwyllgor Trwyddedu A) ac Is-gadeirydd (Is-bwyllgor Trwyddedu B) y Pwyllgor Trwyddedu. Mewn achos lle na fydd y Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd ar gael i fynychu eu cyfarfod is-bwyllgor priodol, caiff Cadeirydd ei ethol o'r rhai sy'n bresennol. Bydd yr Is-bwyllgorau Trwyddedu A a B hyn yn ymgymryd â swyddogaethau trwyddedu, gan gynnwys trwyddedu tacsis a masnachu ar y stryd fel y nodir yng Nghyfansoddiad y Cyngor.<br>(2) Cytunwyd ymhellach y dylai'r Cynghorydd C Davies gymryd lle'r Cynghorydd Smith ar Is-bwyllgor Trwyddedu A, gyda chyfansoddiad y ddau Is-bwyllgor A a B yn aros yn ddinewid o ran eu haelodaeth bresennol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 22 Mai 2024 |

## 5. Materion Brys

| | |
|---|---|
| Y penderfyniad a wnaed | Ni wnaed unrhyw benderfyniad, gan nad oedd unrhyw eitemau brys |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 22 Mai 2024 |